Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams **ar 25 Tachwedd 2024** am 6.30 pm.

**PRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gareth Parry (Cadeirydd) Cyng. Medwyn Hughes (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol) ac Aled Jones (Cyfieithydd) a dau aelod o'r cyhoedd.

Cyn yr eitem gyntaf ar yr agenda, cydymdeimlodd y Maer, ar ran Cyngor y Ddinas, â Sioned Jones ein cyfieithydd arferol, a'i theulu, ar golli ei brawd yn ddiweddar dros y penwythnos.

**87/24 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Simon Hibbs, y Cyng. Beverley Jones, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Delyth Russell a'r Cyng. Lisa Toth.

**88/24 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Datganodd y Cyng. Elin Walker Jones a'r Cyng. Gareth Parry ddiddordeb yn eitem 95/24 ac ni phleidleision nhw ar yr eitem.

**89/24 CYFRANOGIAD CYHOEDDUS**
Dim

**90/24 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 21 HYDREF 2024.**
**PENDERFYNWYD:** derbyn y cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Hydref fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**91/24 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**
*Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod.*
Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig, a oedd yn manylu ar fentrau a phrosiectau'r Cyngor, wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Fodd bynnag, cyn cychwyn ar ei adroddiad, diolchodd y Cyfarwyddwr Dinesig i Aled Jones am gyflenwi dros y cyfieithydd arferol ar y funud olaf. Adroddodd hefyd fod Brian (Bach) Williams, a dderbyniodd Ryddfreiniaeth Bangor yn ddiweddar, yn yr ysbyty ar hyn o bryd a dymunodd wellhad buan iddo. Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Cyngor at y canlynol:

i) Adroddwyd bod y rownd gyntaf o hysbysiadau i ofyn i drigolion Ward Menai a oeddent am gael is-etholiad i lenwi'r lle gwag presennol, wedi eu cyhoeddi. Os na fydd Cyngor Gwynedd yn derbyn deg llofnodwr sy'n gofyn am is-etholiad erbyn 6 Rhagfyr, yna cyhoeddir hysbysiadau cyfethol.

ii) Mae digwyddiad cyntaf dathliad 1500 wedi'i drefnu i gael ei gynnal y Sul nesaf, 1 Rhagfyr, sef Sul cyntaf yr Adfent a dechrau'r flwyddyn grefyddol. Arweinir y gwasanaeth, a gynhelir yn yr Eglwys Gadeiriol, gan Archesgob Cymru a bydd holl Esgobion Cymru yn bresennol.

iii) Mae'r coed Nadolig wedi eu codi ar Ffordd Caernarfon, a bydd goleuadau Nadolig yn mynd i fyny dros yr wythnos nesaf. Adroddwyd bod sawl rhwystr wedi

bod wrth osod y goleuadau Nadolig yn y rhan yma o'r Ddinas a bu'n rhaid newid y math o oleuadau ddwywaith oherwydd y cyfyngiad ar y colofnau goleuo.

iv) Mae'r trefniadau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, sydd fel arfer, yn cael eu harwain gan Fenter Iaith Bangor, yn mynd rhagddynt yn dda ac yn cael eu cefnogi gan Storiel, Pontio, Castell Penrhyn, Gwasanaethau Ieuenctid Gwynedd, MSparc, Llyfrgell Bangor, Undeb y Myfyrwyr ac eraill.

v) Bydd Cyfarwyddwr y Ddinas yn recordio podlediadau yn ddiweddarach yr wythnos hon i drafod dathliadau 1500 a dyfodol y Stryd Fawr, yn Gymraeg ddydd Mawrth ac yn Saesneg ddydd Iau. Bydd y ddau bodlediad yn cael eu darlledu ym mis Rhagfyr.

vi) Holwyd y Cyfarwyddwr Dinesig ynghylch cynllunio'r Gerddi Beiblaidd ac a oedd hyn yn cyfeirio at Gais Cynllunio. Ymatebodd mai'r cyfan a olygai'r adroddiad oedd bod y gwaith o gynllunio beth i'w blannu yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer cychwyn ar y gwaith yn y Flwyddyn Newydd.

**92/24 CEFNOGI CERBYD HEDDLU GOGLEDD CYMRU.**

*Roedd manylion y cynnig wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau*

Trafododd y Cyngor y cynnig gan Heddlu Gogledd Cymru bod Cyngor Tref Caernarfon a Chyngor Dinas Bangor yn helpu i ariannu sefydlu cerbyd heddlu ychwanegol i dargedu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y ddwy ardal. Roedd y cynnig yn gofyn i Gyngor y Ddinas neilltuo £7,000 yn y flwyddyn ariannol nesaf i sefydlu'r prosiect hwn. Cafwyd trafodaeth fer ond roedd nifer o gwestiynau heb eu hateb.

**Penderfynwyd:** cymeradwyo'r prosiect a'r ymrwymiad mewn egwyddor a gofyn i Heddlu Gogledd Cymru am ragor o fanylion am fanylion y prosiect.

**93/24 CYMERADWYO CYNNYDD YN Y GYLLIDEB AR GYFER TELEDU CYLCH CYFYNG YN LLEFYDD CHWARAE COED MAWR A MAESTRYFAN.**

Roedd y Cyngor tua deunaw mis yn ôl wedi cymeradwyo £8,000 i ariannu cam cyntaf prosiect i osod teledu cylch cyfyng ar holl barciau chwarae'r Ddinas. Ers hynny mae'r costau wedi cynyddu, yn rhannol oherwydd y gofyniad i gynnwys offer ychwanegol ac yn rhannol oherwydd cynnydd mewn offer a gweithlu. Y dyfynbris diweddaraf ar gyfer yr un gwasanaeth yw £25,000. Bwriedir ariannu hanner y prosiect hwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol drwy gynyddu'r gyllideb o £8,000 i £12,500 a chynnwys y taliad gweddilliol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Cafwyd trafodaeth fanwl ar y TCC yn y Ddinas.

**Penderfynwyd:** **i )** cynyddu'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol i £12,500.
**ii)** cynnwys y £12,500 sy'n weddill yng nghyllideb y flwyddyn ariannol nesaf.
**iii)** gofyn i reolwr perthnasol Cyngor Gwynedd fynychu cyfarfod o'r Cyngor yn y Flwyddyn Newydd i drafod TCC yn y Ddinas.

**94/24 CEFNOGI CYNNIG LLANYSTUMDWY YNGHYLCH ARDALOEDD O BWYSIGRWYDD IEITHYDDOL.**

*Roedd manylion cynnig Llanystumdwy wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau*

Roedd y Cyngor wedi derbyn cais gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy yn gofyn i holl Gynghorau'r ardal ystyried cefnogi Adroddiad y Comisiwn ar Gymunedau Cymraeg ar Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg ac i gadarnhau ei gefnogaeth gyda sefydliadau cynrychioliadol a Llywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd:** cefnogi argymhellion yr Adroddiad.

**95/24 YSTYRIED CAIS AM GRANT GAN GRŴP CYMUNEDOL MAESTRYFAN.**

Trafododd y Cyngor gais grant gan Grŵp Cymunedol Maestryfan i helpu i ariannu partïon cymunedol. Roedd y cais wedi ei asesu gan y Pwyllgor Cyllid ac adroddodd y Cadeirydd mai argymhelliad unfrydol y pwyllgor oedd gwrthod y cais am sawl rheswm.

**Ni dderbyniodd y cynnig eilydd ac felly cafodd ei ollwng.**

**96/24 PENODI RHEOLWR/TREFNYDD HWB CYMUNEDOL RHAN-AMSER.**

Gohiriwyd yr eitem hon gan ei bod yn dal i gael ei hasesu gan y Pwyllgor Staffio .

**97/24 CAIS CYNLLUNIO**

**i.** Cais cynllunio C24/0828/11/TC – 302 Stryd Fawr, Bangor – Cais i addasu swyddfa llawr cyntaf yn fflat.

**Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.35pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR